

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/10081/21

David Rees AS,
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru

SeneddPLL@senedd.cymru

5 Hydref 2021

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyron dyddiedig 27 Medi ataf i a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynglŷn ag amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 ar ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer 2022-23 i 2026-27. Rwy'n ymateb fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros etholiadau, ond yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd, oherwydd y bydd ganddi ddiddordeb yn y gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, a bod etholiadau'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

Er nad ydym eto wedi cael cadarnhad beth fydd lefel y cyllid, a gaiff ei drosglwyddo i Gymru gan Drysorlys EM mewn perthynas â'r costau hyn, o'r trafodaethau a gawsom, rydym yn disgwyl y bydd y swm yn ddigon i dalu'r gwariant a amlinellir yn yr amcangyfrif. Byddai angen i unrhyw symiau dros lefel y trosglwyddiad ddod o rywle arall o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Gymru, gan olygu felly y bydd llai ar gael ar gyfer gweithgarwch arall a delir drwy Gynnig y Gyllideb Flynyddol.

Gallaf gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifir gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif a'r cynllun pum mlynedd yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer beth sy'n ofynnol yn ystod y cyfnodau dan sylw, a'r etholiadau arfaethedig yn ystod y cyfnodau hynny. Mae hyn yn cynnwys gwaith rydym wedi eisoes wedi cychwyn arno mewn perthynas â nifer o gynlluniau peilot i fynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogol, a pharhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr newydd. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gwybod ei bod yn debygol y bydd y gwariant ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022 yn dod o fewn y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol 2022-23.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i roi cytundeb talu ar waith, sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni gan y Senedd. Mae'r ddau daliad cyntaf ar gyfer 2021-22 wedi'u gwneud i'r Comisiwn Etholiadol ac mae proses yn ei lle ar gyfer gwneud taliadau dilynol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution